

## **Y CYFANSODDIAD ADRAN 18 B**

### **PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO AELODAU**

#### **1. Egwyddorion Cyffredinol**

- 1.1 Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau. NID yw'n fwriad iddo ddisodli'r Cod Ymddygiad, yn hytrach y bwriad yw ei fod yn mynd law yn llaw â'r Cod, galluogi ymddygiad nad yw efallai'n cyrraedd y trothwy i fod yn dor-rheolau y dylid mynd i'r afael ag o; ac sy'n cyfiawnhau cwyn ffurfiol i'r Ombwdsmon.
- 1.2 Nid yw'r protocol yn disodli'r Protocol Perthnasoedd Aelodau-Swyddogion a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.
- 1.3 Rhaid i Aelodau wneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau drwy brosesau mewnol y cytunwyd arnynt yn amodol ar eu rhwymedigaethau o dan God Ymddygiad yr Aelodau.
- 1.4 Dewis olaf fydd cyfeirio materion i reoleiddwyr allanol yn amodol ar rwymedigaethau Aelodau o dan y Cod Ymddygiad.
- 1.5 Bydd aelodau'n osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig yn y Cyngor llawn a thrwy'r cyfryngau
- 1.6 Ni fydd yr ymrwymïadau hyn yn rhwystro trafodaeth neu graffu gwleidyddol dilys
- 1.7 Disgyblaeth grŵp fydd congflaen hunan-reoleiddio gydag Arweinwyr Grwpiau'n cymryd cyfrifoldeb am eu haelodau eu hunain
- 1.8 Bydd Arweinwyr Grwpiau yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau y cydymffurfir â'r Protocol hwn
- 1.9 Bydd yr Aelodau'n ymrwymo i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r protocol hwn

#### **2. Gweithio er mwyn osgoi problemau**

Er mwyn lleihau nifer yr achosion o dor-rheolau honedig bydd yr holl Arweinwyr Grwpiau yn ymrwymo i: -

- (i) Strategaeth Datblygu Aelodau – a byddant yn ceisio sicrhau ymrwymiad aelodau eu grwpiau iddi. Bydd pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i sicrhau bod y Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi ac yn ymateb i anghenion aelodau.
- (ii) Mynd i ddigwyddiadau hyfforddi Aelodau perthnasol - yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad neu gyrsiau cywirdeb o fewn cwmpas eu swyddogaeth.
- (iii) Siarter CLILC – Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal Siarter CLILC ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau ac mae'n cefnogi ei amcanion. Bydd Arweinwyr

Medi 2013

Grwpiau'n ceisio sicrhau ymrwymiad aelodau unigol i hyfforddiant ac yn parhau i adolygu hyn.

### **3. Swyddogaeth Arweinwyr Grwpiau**

- 3.1 Bydd cwyn gan aelod ynglŷn ag aelod o'r un grŵp yn cael ei gyfeirio at yr Arweinydd y Grŵp. Bydd cwyn gan Aelod ynghylch gweithgareddau aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei chyfeirio at Arweinydd Grŵp yr achwynydd, a fydd wedyn yn cyfeirio'r mater i Arweinydd y Grŵp sy'n gyfrifol am yr Aelod y gwnaethpwyd y gŵyn yn eu herbyn.
- 3.2 Ar ôl derbyn cwyn, swyddogaeth yr Arweinwyr Grwpiau yw cymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth o fewn eu grwpiau. Dylai disgyblaeth o fewn grŵp geisio bod yn anffurfiol a'i ddatrys drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd angen i Arweinwyr Grwpiau gadw rhai cofnodion, ond ni fydd y broses yn un "drom o ran dogfennau". Dylai'r pwyslais fod ar hyfforddi, addysgu, canoli a chymodi.
- 3.3 Lle bo hynny'n briodol, gellid defnyddio cosb fel tynnu oddi ar bwyllgor neu gorff allanol mewn achosion eithriadol neu ar ôl achosion cyson o dorri rheolau a bydd y mater yn cael ei gyfeirio ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 3.4 Cyn ystyried unrhyw gosb, neu hyfforddiant, efallai y bydd Arweinydd y Grŵp perthnasol ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y cyd â'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro. Bydd y Pwyllgor Safonau'n ceisio sicrhau tegwch a chysondeb yn y ddisgyblaeth a weinyddir o fewn pob Grŵp.
- 3.5 Yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael o Arweinwyr Grwpiau, bydd unrhyw fater disgyblaeth a gyfeiriwyd at Arweinwyr y Grwpiau yn cael eu trafod gyda'r Grŵp er mwyn ceisio sicrhau fod cosbau teg a chyson yn cael eu gweithredu.
- 3.6 Lle bo'r gŵyn yn ymwneud ag un o'r Arweinyddion Grŵp, bydd gofyn i'r Maer ystyried y gŵyn, ac yr un fydd y drefn gydag aelodau heb eu halinio neu aelodau digyswllt.

### **4. Aelodau Heb eu Halinio neu Aelodau Digyswllt**

- 4.1 Mewn perthynas ag aelodau heb eu halinio neu aelodau digyswllt, y Maer fydd yn cyflawni swyddogaeth yr "Arweinydd Grŵp". Dylid cyfeirio pryderon ynghylch ymddygiad aelod digyswllt at y Maer a fydd yn defnyddio'r un egwyddorion a safonau â rhai'r Arweinwyr Grwpiau o ran hyfforddiant/ canoli/ cymodi.

### **5. Tor-amodau Parhaus**


- 5.1 Mewn perthynas â thor-amodau parhaus, neu feysydd lle mae gan Arweinwyr Grwpiau bryderon bod ymddygiad Aelod neu Aelodau unigol yn niweidiol i gysylltiadau rhwng grwpiau gwleidyddol neu i enw da'r Cyngor, bydd yr Arweinwyr y Grwpiau'n cyfarfod gyda'r Swyddog Monitro i gytuno ar y ffordd ymlaen. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i atgyfeiriadau ar y cyd i'r Ombwdsmon gan Arweinwyr Grwpiau, ar gyfer tor-amodau parhaus ar lefel isel.

### **6. Pwyllgor Safonau**

- 6.1 Oherwydd unrhyw faterion a allai arwain at wrthdaro, bydd unrhyw ymgysylltiad fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.4 uchod yn cynnwys dim mwy nag un aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Bydd hyn digwydd ar sail rota ac yn unol ag argaeledd.
- 6.2 Bydd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau swyddogaeth gefnogol/ ymgynghorol i'r Arweinwyr Grwpiau. Bydd y broses hon yn cael ei chychwyn ar gais Arweinydd y Grŵp mewn unrhyw achos penodol.
- 6.3 Bydd cyfarfodydd o'r fath yn breifat ac anffurfiol.
- 6.4 Bydd unrhyw ddogfennau, nodiadau presenoldeb, nodiadau ffeil neu nodiadau cynghori sy'n cael eu trosglwyddo rhwng Arweinydd y Grŵp (neu'r Maer fel bo'n briodol) ac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gwbl breifat a chyfrinachol (yn amodol ar gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

## SIART LLIF CWYNION AELOD/AELOD

Atodiad A yw siart llif o'r camau a nodir ym Mhrotocol Hunanreoleiddiol yr Aelodau a ddisgrifir yn Adran 18B uchod.



MEWN ACHOS ANGHYDFFURFIO CYSON, BYDD ARWEINYDDION GRŴP YN CYFARFOD Y PRIF WEITHREDWR A'R SWYDDOG MONITRO I GYTUNO FFORDD YMLAEN. GALL ARWEINYDDION GRŴP YSTRIED CYFEIRIAD AR Y CYD I'R OMBWDSMON MEWN ACHOS O ANGHYDFFURFIO CYSON AR LEFEL ISEL GALL

SM = Swyddog Monitro  
OGCC = Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cymru